# Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector

**Cyfarfod ar 7 Mawrth 2018 yn: Tŷ Hywel, Caerdydd**

# Cofnodion

**Yn bresennol**

| Llywodraeth Cymru a WCVA | Arweinwyr Rhwydwaith Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector |
|---|---|
| • Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus<br>• Ruth Marks (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)<br>• Anna Nicholls (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)<br>• Amelia John (Llywodraeth Cymru)<br>• Andrew Charles (Llywodraeth Cymru)<br>• Helen Brown (Llywodraeth Cymru)<br>• Amy Sanders (Sylwedydd Myfyriwr) | • Gethin Rhys *(Cyngor Rhyng-ffydd Cymru – Arweinydd Rhwydwaith Crefydd)*<br>• Carl Cooper *(Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys – Arweinydd Rhwydwaith Cyfryngwyr Rhanbarthol a Lleol)*<br>• Kate Young *(Fforwm Rhieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu Cymru - Arweinydd Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant)*<br>• Kate Evans *(Cymdeithas Chwaraeon Cymru – Arweinydd Rhwydwaith Chwaraeon a Hamdden)*<br>• Derek Walker *(Canolfan Cydweithredol Cymru) – Arweinydd Rhwydwaith Menter Gymdeithasol)*<br>• Laura Hill *(Cynghrair BAME, Arweinydd Lleiafrifoedd Ethnig)*<br>• Catrin James *(CWVYS – Arweinydd Rhwydwaith Ieuenctid)*<br>• Gareth Coles *(Celfyddydau Gwirfoddol Cymru – Rhwydwaith Celfyddydau Gwirfoddol Cymru)* |

**Cofnod**

Nododd Ruth Marks fod cynrychiolwyr y trydydd sector yn gwerthfawrogi mai hwn oedd y cyfarfod cyntaf o'r Bartneriaeth a gynhaliwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet a gwahoddodd y rheini oedd yn bresennol i'w cyflwyno eu hunain iddo.

Yn dilyn hyn, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn dymuno defnyddio'r cyfarfod hwn i glywed beth yw'r blaenoriaethau cyfredol ar gyfer y sector. Cydnabu effaith gadarnhaol y trydydd sector mewn cymunedau ar draws Cymru a chydnabu fod llawer o sefydliadau trydydd sector yn ymdrin â phobl oedd yn profi brath llymder a bod llawer o bobl yn ei chael yn anodd byw o ddydd i ddydd. Amlygodd Ysgrifennydd y Cabinet feysydd eraill o ddiddordeb fel trosglwyddo asedau, sut i rymuno

cymunedau a phwysigrwydd sicrhau bod pobl a llefydd yn cael eu grymuso mewn gwirionedd er mwyn gwella bywydau. Roedd yn awyddus i weld gwir effaith ar lawr gwlad, ac arweinyddiaeth oddi fewn i gymunedau.

Yna gwahoddodd RM y rheini oedd yn bresennol i drafod pwyntiau Ysgrifennydd y Cabinet, gan gynnwys meysydd gwaith allweddol yr oedd y sector yn ymwneud â nhw. Codwyd y pwyntiau/materion canlynol:

- Mae llawer o sefydliadau trydydd sector yn bodoli ar ewyllys da eu gwirfoddolwyr, ac mae'r holl sefydliadau hyn yn dymuno cael cydnabyddiaeth gyhoeddus am y cyfraniad a wnânt yn eu cymunedau.
- Ceir llawer o sefydliadau trydydd sector bach nad ydynt yn derbyn cyllid cyhoeddus ac felly nad ydynt yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru nac Awdurdodau Lleol. Felly nid ydynt yn ymwybodol o Gynllun y Trydydd Sector.
- Yn aml mae sefydliadau trydydd sector dan gyfyngiadau llym gan Awdurdodau Lleol o ran eu dull gweithredu a all effeithio'n negyddol yn aml ar y gwasanaeth sy'n cael ei gyflenwi. Yn aml ceir newidiadau bach y gellir eu gwneud i bolisïau ac arferion a fyddai'n caniatáu i wasanaethau redeg yn fwy effeithiol.
- Mae cefnogi ac annog pobl ifanc i wirfoddoli'n parhau'n bwysig a gyda'r posibilrwydd o leihau'r oedran pleidleisio, mae'n bwysicach nag erioed i sicrhau bod pobl ifanc yn cyfranogi ac yn teimlo bod ganddynt rym yn ein cymunedau.
- Er bod llawer o waith yn cael ei wneud nad oes angen cymorth ariannol arno, ceir adegau pan fydd angen i sefydliadau edrych am ffrydiau cyllido er mwyn cyflenwi gwasanaethau o fewn cymunedau. Ceir enghraifft o hyn yn Abertawe, lle mae 15 o grwpiau BME ar hyn o bryd yn gweithio gyda'i gilydd i gyflenwi amrywiol brosiectau, ond ni fydd modd iddynt barhau i wneud hyn oni bai bod cyllid yn cael ei sicrhau.
- Mae'n bwysig sicrhau bod gan gymunedau adeiladau i alluogi i brosiectau redeg a bod cyllid ar gael ar gyfer cynnal yr adeiladau. Dylai'r agenda Trosglwyddo Asedau Cymunedol ystyried hyn. **GWEITHREDU** Tîm y Trydydd Sector i anfon gwybodaeth at Gethin Rhys am y cynadleddau Asedau Cymunedol sydd ar y gweill.
- Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod llawer o bapurau wedi'u cyflwyno mewn perthynas â grymuso cymunedau a'r fframwaith ymgysylltu mewn perthynas â Chynllun y Trydydd Sector. Gofynnodd i'w swyddogion barhau i weithio gyda WCVA a chynrychiolwyr y trydydd sector i symud y gwaith hwn ymlaen.

Trafodwyd y pwyntiau hyn gan aelodau o'r grŵp ac mewn ymateb pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet bwysigrwydd arweinyddiaeth mewn cymunedau a thrafododd pa berthynas ddylai fod gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol gyda

chymunedau. Rôl hwyluso a grymuso oedd yn cael ei ffafrio, fyddai'n caniatáu i gymunedau 'fynd ati a chyflenwi' yn ogystal â'r angen i ganolbwyntio ar yr hyn rydym ni'n ceisio ei gyflawni gyda'n gilydd. Trafodwyd ymagwedd fwy hyblyg at risg ac arloesi hefyd mewn perthynas â datblygu prosiectau newydd.

Wrth drafod cyfarfodydd yn y dyfodol cytunwyd y dylent fod yn fforwm ar gyfer ystyried syniadau, ymdrin ag unrhyw rwystrau a chanolbwyntio ar ganlyniadau yn enwedig pan fydd y rheini'n croestorri'r trydydd sector cyfan.

Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i bawb am ddod ac anogodd sefydliadau'r trydydd sector i barhau â'u gwaith, ac i weithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at Gofod3 ar 8 Mawrth lle'r oedd yn disgwyl y byddai llawer o'r un materion yn cael eu codi yn ei sgwrs gyda Peter Davies. Dywedodd fod angen i drigolion a sefydliadau lleol edrych ar yr adnoddau sydd ar gael iddynt yn eu cymunedau tra bo angen i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol wybod pryd fydd angen iddynt gamu i mewn i helpu i gryfhau'r adnoddau hynny.